Teitl Swydd: Pennaeth Ffisiotherapi

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 6A/B

HERA: CMETS76

Prif bwrpas y rôl

Mae'r tîm Gwasanaethau Perfformiad yn rhan annatod o'r System Chwaraeon ehangach, gan weithio ar draws rhaglenni perfformiad y brifysgol i ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf gyda'r nod o sicrhau'r profiad gorau posibl i'r myfyriwr-athletwr.

Mae hon yn rôl ddeuol a fydd â chyfrifoldeb arweinyddiaeth dros ddatblygu darpariaeth gwasanaethau meddygol a staff ar draws ein Rhaglenni Chwaraeon Perfformiad a TASS. Byddwch hefyd yn cael cyfrifoldebau cyflenwi technegol i'n rhaglen TASS.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydweithio'n agos â'r tîm Gwasanaethau Perfformiad presennol i dyfu'r ddarpariaeth cymorth perfformiad, tra hefyd yn gweithredu fel prif glinigwr ar gyfer athletwyr aml-chwaraeon.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Arwain a goruchwylio darpariaeth ffisiotherapi ac ailsefydlu chwaraeon drwy'r tîm i'n rhaglenni perfformiad, gan yrru darpariaeth sy'n gadarn, yn seiliedig ar anghenion ac yn gynyddol i gyrraedd canlyniadau sy'n alinio â'n systemau chwaraeon.
- Cyfrifol am gynllunio a gweinyddu dyddiol darpariaeth gadarn drwy staff ar gyfer rhaglenni perfformiad Chwaraeon Met Caerdydd a ddyrannwyd.
- Darparu gwybodaeth arbenigol a chyngor i staff ar gyfer datblygiad a chynnydd y ddarpariaeth ffisiotherapi a'r tîm yn y dyfodol.
- Cydgysylltu cyflenwad darpariaeth ffisiotherapi fanwl ar gyfer timau perfformiad Met Caerdydd, gan hefyd ddefnyddio'r MDT ehangach, staff academaidd, a'r gweithlu myfyrwyr i ategu cyflenwad y gwasanaethau.
- Gosod a chytuno ar amcanion perfformiad blynyddol ar gyfer y tîm a sicrhau bod adolygiadau effeithiol yn cael eu cwblhau drwy ddull cefnogol ond heriol.
- Cydweithio'n agos â chlybiau proffesiynol a CGCau i alinio cymorth a rheolaeth athletwyr perfformio uchel i alluogi amgylchedd chwaraeon prifysgol perfformiad uchel.
- Datblygu dull prifysgol gyfan o brotocolau rheoli cyfergyd cysylltiedig â chwaraeon strwythuredig a nodi cyfleoedd am ddarpariaeth rheoli cyfergyd addas fel y'i harweinir gan BUCS a sefydliadau eraill.
- Sicrhau dull rhagweithiol, cadarn a chydweithredol o raglennu paratoi corfforol a chyflenwad yn y clinig drwy gydol y tymor, gan gynnwys prosesau dychwelyd i berfformio (RTP).
- Cyflenwi sesiynau triniaeth ac ailsefydlu 1:1 a grŵp a, lle bo angen, darparu gofal meddygol yn ystod hyfforddiant a diwrnodau gêm.
- Darparu adroddiadau digidol rheolaidd i gynorthwyo rhaglennu, cynllunio, dewis tîm a

gwneud penderfyniadau seiliedig ar sgwad.
- Profiad sylweddol o ddefnyddio offer diagnostig a systemau rhaglennu a monitro athletwyr (VALD, Gymaware, TrainMyAthlete ayyb).
- Sicrhau cydymffurfiaeth unigolyn a thîm â phob proses lywodraethu glinigol a chodau ymddygiad, gan gwblhau dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS), CSP, a safonau gweithredu lleiaf HCPC, gan gynnwys y broses archwilio ac adolygu ar gyfer pob maes perthnasol.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol

- Gradd mewn ffisiotherapi.
- Aelod o Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi.
- Wedi cofrestru gyda Chyngor Proffesiynau Iechyd (HPC) am fwy na 3 blynedd.
- Cymhwyster trawma ochr cae PHICIS 2, ATMMiF, ITMMiF (neu dystysgrif gofal uniongyrchol a gymeradwyir gan Goleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin).

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad sylweddol o weithio fel ffisiotherapydd mewn amgylchedd chwaraeon, gan gynnwys cymorth ochr cae.
2. Profiad sylweddol o asesu a thrin cyflyrau cyhyrsgerbydol ac anafiadau chwaraeon.
3. Profiad helaeth o ddatblygu gwybodaeth a phrosesau ymarferwyr.
4. Arwain cydweithwyr gan ddefnyddio ein proses perfformiad a datblygiad sy'n darparu cyd-destun a fframwaith cyffredinol i annog cyfraniad cyflogeion ac sy'n cynnwys gosod nodau, adborth, a chynllunio datblygu perfformiad.
5. Y gallu i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol ag athletwyr, staff a rhanddeiliaid.
6. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
7. Sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau rhagorol.
8. Ymrwymiad y gellir ei ddangos i DPP.
9. Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol.
10. Ymrwymiad i weithio mewn dull hyblyg a dealltwriaeth o'r oriau gwaith a gofynion chwaraeon perfformiad.

Dymunol

1. Profiad o ddatblygu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion timau a/neu athletwyr.
2. Profiad o gyfathrebu a gweithio gyda hyfforddwyr neu arweinwyr Perfformiad.
3. Dealltwriaeth o bwysau myfyrwyr-athletwyr.
4. Profiad o weithio gydag athletwyr perfformio uchel

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n

hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad manylach o restr gwaharddedig oedolion a phlant y DBS.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.